| *Rhes* | Colofn 1<br>*Prif safon* | Colofn 2<br>*Safon ddibynnol* |
|---|---|---|
| | | Safon 26 |
| (15) | **Cyfweliadau â mwy nag un person**<br><br>Safon 27 | Un neu ragor o'r canlynol:<br><br>Safon 27A<br><br>Safon 27B |
| (16) | **Cyfweliadau â mwy nag un person**<br><br>Safon 27A neu 27B | Safon 27 |
| (17) | **Cyfarfodydd cyhoeddus**<br><br>Safon 28 | Safon 31 |
| (18) | **Cyfarfodydd cyhoeddus**<br><br>Safon 31 | Safon 28 |
| (19) | **Dogfennau**<br><br>Safon 38, 39, 40, 41, 42, 43 neu 45 | Safon 46<br><br>Safon 47 |
| (20) | **Ffurflenni**<br><br>Safon 48 | Safon 48A<br><br>Safon 48B |
| (21) | **Gwefannau**<br><br>Safon 49, 50 neu 51 | Safon 52 |
| (22) | **Arwyddion**<br><br>Safon 58 neu 59 | Safon 60 |
| (23) | **Derbynfa**<br><br>Safon 61 | Safon 64<br><br>Safon 65 |
| (24) | **Derbynfa**<br><br>Safon 62 | Safon 62A |
| (25) | **Derbynfa**<br><br>Safon 63 | Safon 64 |

| *Rhes* | Colofn 1<br>*Prif safon* | Colofn 2<br>*Safon ddibynnol* |
|---|---|---|
| (26) | **Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg mewn derbynfa**<br>Safon 64 | Un neu ragor o'r canlynol:<br>Safon 61<br>Safon 63 |
| (27) | **Grantiau**<br>Safon 69 | Safon 69A<br>Safon 72 |
| (28) | **Grantiau**<br>Safon 70 neu 71 | Safon 69<br>Safon 69A |
| (29) | **Contractau**<br>Safon 74 | Safon 74A<br>Safon 77 |
| (30) | **Contractau**<br>Safon 75 neu 76 | Safon 74<br>Safon 74A |

# RHAN 3

## DEHONGLI'R SAFONAU

**24** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.

**25** Nid yw'r safonau a bennir ond yn gymwys i'r graddau y mae corff yn—

(a) cyflenwi gwasanaethau i berson, neu

(b) yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau—

  (i) i'r person arall hwnnw, neu

  (ii) i drydydd person.

**26** Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.

**27** At ddibenion y safonau—

